



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 2941 (Cy.300)

2012 No. 2941 (W.300)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

**Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau
Sbring (Cymru) 2012**

**The Spring Traps Approval (Wales)
Order 2012**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

O dan adran 8 o Ddeddf Plâu 1954, mae'n drosedd i ddefnyddio neu i ymwybodol ganiatáu defnyddio unrhyw drap sbring ac eithrio trap sydd wedi ei gymeradwyo drwy Orchymyn.

Under section 8 of the Pests Act 1954, it is an offence to use or knowingly permit the use of any spring trap other than a trap that has been approved by Order.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Trapiau Sbring (Cymru) 2010 o ran Cymru. Mae erthygl 2 yn pennu'r trapiau cymeradwy, sef y rheini a restrir yng ngholofn (1) yr Atodlen ac eraill sy'n gyfwerth ym mhob modd i'r rheini a restrir felly. Mae'r Gorchymyn yn ychwanegu 5 math o drapiau at y rhai a gymeradwywyd o dan y Gorchymyn blaenorol. Pennir yr amodau a atodir i'r gymeradwyaeth ar gyfer pob un math o drap yng ngholofn (2) o'r Atodlen.

This Order revokes and replaces the Spring Traps Approval (Wales) Order 2010 in relation to Wales. Article 2 specifies approved traps, namely those listed in column (1) of the Schedule and others which are equivalent in all respects to those so listed. The Order adds 5 types of traps to those approved under the previous Order. Conditions attached to the approval of each type of trap are specified in column (2) of the Schedule.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, gan nad oes ganddo effaith ar gostau busnes.

A regulatory impact assessment has not been produced for this instrument as it has no impact on the costs of business.

2012 Rhif 2941 (Cy.300)

ANIFEILIAID, CYMRU

**Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau
Sbring (Cymru) 2012**

Gwnaed 21 Tachwedd 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 20 Tachwedd 2012

Yn dod i rym 17 Rhagfyr 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 8(3) a (7) o Ddeddf Plâu 1954(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn wrth arfer y pwerau hynny.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2012. Daw i rym ar 17 Rhagfyr 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Cymeradwyo trapiau sbring

2.—(1) At ddibenion adran 8(3) o Ddeddf Plâu 1954, mae'r trapiau sbring canlynol wedi eu cymeradwyo, sef—

- (a) unrhyw drap sbring—
 - (i) o fath a gwneuthuriad a bennir yn unrhyw gofnod yng ngholofn (1) o'r Atodlen; a
 - (ii) sy'n cael ei weithgynhyrchu neu a gafodd ei weithgynhyrchu gan neu o dan awdurdod y person neu y cwmni a bennir yn y cofnod hwnnw; a
- (b) unrhyw drap sbring sy'n gyfwerth ym mhob modd perthnasol â thrap sbring o fath a gwneuthuriad a bennir yn unrhyw gofnod yng ngholofn (1) o'r Atodlen.

(1) 1954 p.68.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, erthygl 2, Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi, maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru.

2012 No. 2941 (W.300)

ANIMALS, WALES

**The Spring Traps Approval (Wales)
Order 2012**

Made 21 November 2012

*Laid before the National
Assembly for Wales* 20 November 2012

Coming into force 17 December 2012

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 8(3) and (7) of the Pests Act 1954(1) now vested in them(2), make the following Order in exercise of those powers.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Spring Traps Approval (Wales) Order 2012. It comes into force on 17 December 2012.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Approval of spring traps

2.—(1) For the purposes of section 8(3) of the Pests Act 1954, the following spring traps are approved, namely—

- (a) any spring trap—
 - (i) of a type and make specified in any entry in column (1) of the Schedule; and
 - (ii) which is or was manufactured by or under authority of the person or company specified in that entry; and
- (b) any spring trap which is equivalent in all relevant respects to a spring trap of a type and make specified in any entry in column (1) of the Schedule.

(1) 1954 c.68.

(2) The functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales, by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672, article 2, Schedule 1. By virtue of section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32) they now vest in the Welsh Ministers.

(2) Mae'r cymeradwyaethau a roddir gan baragraff (1) o'r erthygl hon sy'n ymwneud ag unrhyw drap sbring a bennir yn unrhyw gofnod yng ngholofn (1) o'r Atodlen, ac sy'n ymwneud ag unrhyw drap sbring sy'n gyfwerth ym mhob modd perthnasol â thrap sbring a bennir felly, yn ddarostyngedig i'r amodau o ran yr anifeiliaid y caniateir defnyddio'r trap sbring a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn (2) o'r Atodlen mewn perthynas â hwy, a'r amgylchiadau y caniateir defnyddio'r trap sbring a bennir yn y cyfnod cyfatebol yng ngholofn (2) o'r Atodlen oddi tanynt.

(3) At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae trap sbring yn gyfwerth ym mhob modd perthnasol â thrap sbring o fath a gwneuthuriad a bennir yn yr Atodlen os yw'n cyfateb i'r trap sbring a bennir felly o ran adeiladwaith, deunyddiau, grym effaith neu fomentwm, ac ym mhob modd arall sy'n berthnasol i'w effaith neu i'w fodd o weithredu fel trap.

Dirymiadau

3. Mae Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2010(1) wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

(2) The approvals given by paragraph (1) of this article relating to any spring trap specified in any entry in column (1) of the Schedule, and to any spring trap equivalent in all relevant respects to a spring trap so specified, are subject to the conditions as to the animals for which and the circumstances in which the spring trap may be used specified in the corresponding entry in column (2) of the Schedule.

(3) For the purposes of this Order, a spring trap is equivalent in all relevant respects to a spring trap of a type and make specified in the Schedule if it corresponds to the spring trap so specified in construction, in materials, in impact force or momentum, and in all other respects which are relevant to its effect or manner of operation as a trap.

Revocations

3. The Spring Traps Approval (Wales) Order 2010(1) is revoked in so far as it applies to Wales.

John Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment and Sustainable Development, one of the Welsh Ministers

21 Tachwedd 2012

21 November 2012

YR ATODLEN

SCHEDULE

Erthygl 2

Article 2

<i>Colofn (1)</i>	<i>Colofn (2)</i>
<i>Y math o drap a'i wneuthuriad</i>	<i>Amodau</i>
Aldrich Spring Activated Animal Snare - gweithgynhyrchydd: Mr D Schimetz, PO Box 158, Sekiu, Washington 98381, UDA.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal cigysyddion mawr, mamalaidd, anghynhenid. Rhaid defnyddio'r trap yn unol â'r cyfarwyddiadau (os oes rhai) a ddarparwyd gan y gweithgynhyrchydd.
BMI Magnum 55 - gweithgynhyrchydd: Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th Street, Cleveland, Ohio, 44110 - 2248, UDA.	Ni ddefnyddir y trap ond a ddiben lladd neu ddal llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.
BMI Magnum 110 - gweithgynhyrchydd: Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th Street, Cleveland, Ohio, 44110 - 2248, UDA.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.
BMI Magnum 116 - gweithgynhyrchydd: Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th Street, Cleveland, Ohio, 44110 - 2248, UDA.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, mincod, cwningod, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb

<i>Column (1)</i>	<i>Column (2)</i>
<i>Type and make of trap</i>	<i>Conditions</i>
Aldrich Spring Activated Animal Snare - manufacturer: Mr D Schimetz, PO Box 158, Sekiu, Washington 98381, USA.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking large, non-indigenous, mammalian carnivores. The trap must be used in accordance with the instructions (if any) provided by the manufacturer.
BMI Magnum 55 - manufacturer: Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th Street, Cleveland, Ohio, 44110 - 2248, USA.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking rats and mice. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
BMI Magnum 110 - manufacturer: Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th Street, Cleveland, Ohio, 44110 - 2248, USA.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, stoats, weasels, rats and mice. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
BMI Magnum 116 - manufacturer: Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th Street, Cleveland, Ohio, 44110 - 2248, USA.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, mink, rabbits, stoats, weasels, rats and mice. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture

	gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.		and killing of target species.
DOC 150 - gweithgynhyrchydd: the Department of Conservation, Wellington, Seland Newydd.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, llygod mawr, carlymod a gwencïod. Rhaid gosod y trap yn y twnnel a ddarperir gan weithgynhyrchydd y trap i'w ddefnyddio yn y DU a rhaid ei ddefnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau (os oes rhai) a ddarperir gan y gweithgynhyrchydd.	DOC 150 - manufacturer: the Department of Conservation, Wellington, New Zealand.	The trap shall be used only for the purpose of killing grey squirrels, rats, stoats and weasels. The trap must be set in the tunnel provided by the manufacturer of the trap for use in the UK and must be used in accordance with the instructions (if any) provided by the manufacturer.
DOC 200 - gweithgynhyrchydd: the Department of Conservation, Wellington, Seland Newydd.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, llygod mawr, carlymod a gwencïod. Rhaid gosod y trap yn y twnnel a ddarperir gan weithgynhyrchydd y trap i'w ddefnyddio yn y DU a rhaid ei ddefnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau (os oes rhai) a ddarperir gan y gweithgynhyrchydd.	DOC 200 - manufacturer: the Department of Conservation, Wellington, New Zealand.	The trap shall be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, rats, stoats and weasels. The trap must be set in the tunnel provided by the manufacturer of the trap for use in the UK and must be used in accordance with the instructions (if any) provided by the manufacturer.
DOC 250 - gweithgynhyrchydd: Department of Conservation, Wellington, Seland Newydd.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, cwningod, llygod mawr, carlymod a gwencïod. Rhaid gosod y trap yn y twnnel a ddarperir gan weithgynhyrchydd y trap i'w ddefnyddio yn y DU a rhaid ei ddefnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau (os oes rhai) a ddarperir gan y gweithgynhyrchydd.	DOC 250 - manufacturer: Department of Conservation, Wellington, New Zealand.	The trap shall be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, rabbits, rats, stoats and weasels. The trap must be set in the tunnel provided by the manufacturer of the trap for use in the UK and must be used in accordance with the instructions (if any) provided by the manufacturer.
Fenn Rabbit Trap Mark I - gweithgynhyrchydd: Mr A A Fenn o FHT Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal cwningod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Fenn Rabbit Trap Mark I - manufacturer: Mr A A Fenn of FHT Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire.	The trap shall be used only for the killing or taking of rabbits. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Fenn Vermin Trap Mark I, Vermin Trap Mark II, Vermin Trap Mark III a Vermin Trap Mark IV (Heavy Duty) -	Ni ddefnyddir y trapiâu ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trapiâu	Fenn Vermin Trap Mark I, Vermin Trap Mark II, Vermin Trap Mark III and Vermin Trap Mark IV (Heavy Duty) -	The traps shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, stoats, weasels, rats and mice. The traps must be set in a natural or

gweithgynhyrchydd: Mr A A Fenn o FHT Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire ac fel a bennir ym Manyleb Patent Prydain Rhif 763,891 ac a ddarlunnir yn ffigurau 1 i 3 o'r Fanyleb honno.	mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	manufacturer: Mr A A Fenn of FHT Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire and specified in British Patent Specification No 763,891 and as illustrated in figures 1 to 3 of that Specification.	artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Fenn Vermin Trap Mark VI (Dual Purpose) -gweithgynhyrchydd: Mr A A Fenn o FHT Works, Hoopers Lane, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire ac fel a bennir ym Manyleb Patent Prydain Rhif 763,891.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, mincod, cwningod, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Fenn Vermin Trap Mark VI (Dual Purpose) - manufacturer: Mr A A Fenn of FHT Works, Hoopers Lane, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire and specified in British Patent Specification No 763,891.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, mink, rabbits, stoats, weasels, rats and mice. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Fuller Trap - gweithgynhyrchydd: Fuller Industries, Three Trees, Loxwood Road, Bucks Green, Rudgwick, Sussex.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd. Rhaid i'r trap fod wedi ei ffitio â thwnnel artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Fuller Trap - manufacturer: Fuller Industries, Three Trees, Loxwood Road, Bucks Green, Rudgwick, Sussex.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels. The trap must be fitted with an artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Imbra Trap Mark I a Mark II - gweithgynhyrchydd: James S Low and Sons Ltd, Atholl Smithy, Atholl Street, Blairgowrie, Perthshire ac fel a bennir ym Manyleb Patent Prydain Rhif 682,427 ac a ddarlunnir yn ffigurau 1 i 4 o'r Fanyleb honno.	Ni ddefnyddir y trapiau ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, cwningod, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trapiau mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Imbra Trap Mark I and Mark II - manufacturer: James S Low and Sons Ltd, Atholl Smithy, Atholl Street, Blairgowrie, Perthshire and specified in British Patent Specification No 682,427 and as illustrated in figures 1 to 4 of that Specification.	The traps shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, rabbits, stoats, weasels, rats and mice. The traps must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Juby Trap - gweithgynhyrchydd: y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, Whitehall Place, London SW1 ac fel a bennir ym Manyleb Patent Prydain Rhif 813,066 ac a ddarlunnir	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, cwningod, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas	Juby Trap - manufacturer: the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food, Whitehall Place, London SW1 and specified in British Patent Specification No 813,066 and as illustrated in figures 1	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, rabbits, stoats, weasels, rats and mice. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not

yn ffigurau 1 i 3 o'r Fanyleb honno.	targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	to 3 of that Specification.	compromising the capture and killing of target species.
Kania Trap 2000 - gweithgynhyrchydd: C E Kania Corporation, 124-21, 10405, Jasper Avenue, Edmonton, Alberta, Canada.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, mincod, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid i'r trap fod wedi ei ffitio â thwnnel artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Kania Trap 2000 - manufacturer: C E Kania Corporation, 124-21, 10405, Jasper Avenue, Edmonton, Alberta, Canada.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, mink, stoats, weasels, rats and mice. The trap must be fitted with an artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Kania Trap 2500 - gweithgynhyrchydd: Kania Industries Inc, 63 Centennial Road, Nanaimo, British Columbia, Canada, V9R 6N6.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd pathewod bwytadwy (<i>glis glis</i>)(1), gwiwerod llwyd, llygod, mincod, cwningod, llygod mawr, carlymod a gwencïod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Kania Trap 2500 - manufacturer: Kania Industries Inc, 63 Centennial Road, Nanaimo, British Columbia, Canada, V9R 6N6.	The trap shall be used only for the purpose of killing edible dormice (<i>glis glis</i>) (1), grey squirrels, mice, mink, rabbits, rats, stoats and weasels. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Lloyd Trap - gweithgynhyrchydd: the National Research Corporation, ac fel a bennir ym Manyleb Patent Prydain Rhif 987,113 ac a ddarlunnir yn ffigurau 1 i 3 o'r Fanyleb honno.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Lloyd Trap - manufacturer: the National Research Corporation, and specified in British Patent Specification No 987,113 and as illustrated in figures 1 to 3 of that Specification.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, stoats, weasels, rats and mice. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Nooski Rat Trap - gweithgynhyrchydd: Nooski Trap Systems, PO Box 1240, 50 White Street, Rotorua, Seland Newydd.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd llygod mawr. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas	Nooski Rat Trap - manufacturer: Nooski Trap Systems, PO Box 1240, 50 White Street, Rotorua, New Zealand.	The trap shall be used only for the purpose of killing rats. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-

(1) *Gweler*, er hynny, adran 11(2)(b) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p.69) ac Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd y darpariaethau hynny, p'un ai a yw'r trap o dan sylw yn gymeradwyo o dan y Gorchymyn hwn ai peidio, mae'n drosedd defnyddio unrhyw drap er mwyn dal neu ladd unrhyw bathew, ac eithrio yn unol â thrwydded a roddwyd gan yr awdurdod priodol o dan adran 16 o'r Ddeddf honno.

(1) *See*, however, section 11(2)(b) of, and Schedule 6 to, the Wildlife and Countryside Act 1981 (c.69). By virtue of those provisions, whether or not the trap in question is approved by this Order, it is an offence to use any trap for the purpose of taking or killing any dormouse, except pursuant to a licence granted by the appropriate authority under section 16 of that Act.

	targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.		target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Nooski Mouse Trap - gweithgynhyrchydd: Nooski Trap Systems, PO Box 1240, 50 White Street, Rotorua, Seland Newydd.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd llygod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Nooski Mouse Trap - manufacturer: Nooski Trap Systems, PO Box 1240, 50 White Street, Rotorua, New Zealand.	The trap shall be used only for the purpose of killing mice. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Sawyer Trap - gweithgynhyrchydd: James S Low and Sons Ltd, Atholl Smithy, Atholl Street, Blairgowrie, Perthshire.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Sawyer Trap - manufacturer: James S Low and Sons Ltd, Atholl Smithy, Atholl Street, Blairgowrie, Perthshire.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, stoats, weasels, rats and mice. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Skinns Superior Squirrel Trap - gweithgynhyrchydd: E.Skinns Ltd, Witham Road, Woodhall Spa, Lincolnshire, LN10 6QX.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Skinns Superior Squirrel Trap - manufacturer: E.Skinns Ltd, Witham Road, Woodhall Spa, Lincolnshire, LN10 6QX.	The trap shall be used only for the purpose of killing grey squirrels. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Solway Spring Trap Mk 4 - gweithgynhyrchydd: Solway Feeders Ltd, Main Street, Dundrennan, Kirkcudbright, DG6 4QH.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd pathewod bwytdwy (<i>glis glis</i>)(1), gwiwerod llwyd, llygod, llygod mawr, carlymod a gwencïod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Solway Spring Trap Mk 4 - manufacturer: Solway Feeders Ltd, Main Street, Dundrennan, Kirkcudbright, DG6 4QH.	The trap shall be used only for the purpose of killing edible dormice (<i>glis glis</i>) (1), grey squirrels, mice, rats, stoats and weasels. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.

(1) *Gweler*, er hynny adran 11(2)(b) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p.69) ac Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd y darpariaethau hynny, p'un ai a yw'r trap o dan sylw yn gymeradwy o dan y Gorchymyn hwn ai peidio, mae'n drosedd defnyddio unrhyw drap er mwyn dal neu ladd unrhyw bathew, ac eithrio yn unol â thrwydded a roddwyd gan yr awdurdod priodol o dan adran 16 o'r Ddeddf honno.

(1) *See*, however, section 11(2)(b) of, and Schedule 6 to, the Wildlife and Countryside Act 1981 (c.69). By virtue of those provisions, whether or not the trap in question is approved by this Order, it is an offence to use any trap for the purpose of taking or killing any dormouse, except pursuant to a licence granted by the appropriate authority under section 16 of that Act.

Solway Spring Trap Mk 6 - gweithgynhyrchydd: Solway Feeders Ltd, Main Street, Dundrennan, Kirkcudbright, DG6 4QH.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd pathewod bwytafwy (<i>glis glis</i>)(1), gwiwerod llwyd, llygod, mincod, cwningod, llygod mawr, carlymod a gwencïod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Solway Spring Trap Mk 6 - manufacturer: Solway Feeders Ltd, Main Street, Dundrennan, Kirkcudbright, DG6 4QH.	The trap shall be used only for the purpose of killing edible dormice (<i>glis glis</i>) (1), grey squirrels, mice, mink, rabbits, rats, stoats and weasels. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Springer No 4 Multi-purpose (Heavy Duty) - gweithgynhyrchydd: AB Country Products Ltd, Troy Industrial Estate, Jill Lane, Sambourne, Near Astwood Bank, Redditch, Worcestershire.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Springer No 4 Multi-purpose (Heavy Duty) - manufacturer: AB Country Products Ltd, Troy Industrial Estate, Jill Lane, Sambourne, Near Astwood Bank, Redditch, Worcestershire.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, stoats, weasels, rats and mice. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
Springer No 6 Multi-purpose - gweithgynhyrchydd: AB Country Products Ltd, Troy Industrial Estate, Jill Lane, Sambourne, Near Astwood Bank, Redditch, Worcestershire.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd, mincod, cwningod, carlymod, gwencïod, llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sy'n addas i leiafu'r cyfleoedd o anafu neu ladd rhywogaeth nas targedwyd heb gyfaddawdu ar ddal a lladd y rhywogaeth a dargedwyd.	Springer No 6 Multi-purpose - manufacturer: of AB Country Products Ltd, Troy Industrial Estate, Jill Lane, Sambourne, Near Astwood Bank, Redditch, Worcestershire.	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels, mink, rabbits, stoats, weasels, rats and mice. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is suitable for minimising the chances of injuring or killing non-target species whilst not compromising the capture and killing of target species.
VS Squirrel Trap - gweithgynhyrchydd: Pescon Services, 394 York Road, Stevenage, Hertfordshire, SG1 4EN	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd neu ddal gwiwerod llwyd. Rhaid gosod y trap yn y twnnel a ddarperir gan weithgynhyrchydd y trap i'w ddefnyddio yn y DU a rhaid ei ddefnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau (os oes rhai) a ddarperir gan y gweithgynhyrchydd.	VS Squirrel Trap - manufacturer : Pescon Services, 394 York Road, Stevenage, Hertfordshire, SG1 4EN	The trap shall be used only for the purpose of killing or taking grey squirrels. The trap must be set in the tunnel provided by the manufacturer of the trap for use in the UK and must be used in accordance with the instructions (if any) provided by the manufacturer.

(1) *Gweler*, er hynny, adran 11(2)(b) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p.69) ac Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd y darpariaethau hynny, p'un ai a yw'r trap o dan sylw yn gymeradwy o dan y Gorchymyn hwn ai peidio, mae'n drosedd defnyddio unrhyw drap er mwyn dal neu ladd unrhyw bathew, ac eithrio yn unol â thrwydded a roddwyd gan yr awdurdod priodol o dan adran 16 o'r Ddeddf honno.

(1) *See*, however, section 11(2)(b) of, and Schedule 6 to, the Wildlife and Countryside Act 1981 (c.69). By virtue of those provisions, whether or not the trap in question is approved by this Order, it is an offence to use any trap for the purpose of taking or killing any dormouse, except pursuant to a licence granted by the appropriate authority under section 16 of that Act.

WCS Collarum - gweithgynhyrchydd: Wildlife Control Supplies, LLC, PO Box 538, East Granby, Connecticut 06026, UDA.	Ni ddefnyddir y trap ond at y diben o atal llwynogod.	WCS Collarum - manufacturer: Wildlife Control Supplies, LLC, PO Box 538, East Granby, Connecticut 06026, USA.	The trap shall be used only for the purpose of restraining foxes.
WCS Tube Trap - gweithgynhyrchydd: Wildlife Control Supplies, LLC, PO Box 538, East Granby, Connecticut 06026, UDA.	Ni ddefnyddir y trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, llygod mawr, carlymod a gwencïod. Rhaid gosod y trap yn y twnnel a ddarperir gan weithgynhyrchydd y trap i'w ddefnyddio yn y DU a rhaid ei ddefnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau (os oes rhai) a ddarperir gan y gweithgynhyrchydd.	WCS Tube Trap - manufacturer: Wildlife Control Supplies, LLC, PO Box 538, East Granby, Connecticut 06026, USA.	The trap shall be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, rats, stoats and weasels. The trap must be set in the tunnel provided by the manufacturer of the trap for use in the UK and must be used in accordance with the instructions (if any) provided by the manufacturer.
Wise Trap 110, 160, 200 a 250 - gweithgynhyrchydd: WiseCon A/S, Skovgaardsvej 25, DK-3200 Selsinge, Denmarc.	Ni ddefnyddir y trapiau ond at y diben o ladd llygod mawr. Rhaid gosod y trapiau mewn carthffos, pibell ddraenio neu strwythur tebyg, a rhaid eu defnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau (os oes rhai) a ddarperir gan y gweithgynhyrchydd.	Wise Trap 110, 160, 200 and 250 - manufacturer: WiseCon A/S, Skovgaardsvej 25, DK-3200 Selsinge, Denmark.	The traps are to be used only for the purpose of killing rats. The traps must be set in a sewer, drainpipe or similar structure, and must be used in accordance with the instructions (if any) provided by the manufacturer.

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 2941 (Cy.300)

ANIFEILIAID, CYMRU

Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau
Sbring (Cymru) 2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 2941 (W.300)

ANIMALS, WALES

The Spring Traps Approval (Wales)
Order 2012